Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol 2022-2023

# Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

## Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol 2022–2023

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50 (2) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Gwelliant) 2008

© Hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**.

Where we have identified any third-party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **nmc.org.uk**.

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 23 Portland Place, Llundain, W1B 1PZ.

ISBN 978-1-5286-4233-0

E02921926 07/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'l ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Cymdeithion cyfyngedig ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys


Rhagair **4**

Ein rôl **6**

Ein cofrestr **10**

Beth yw addasrwydd i ymarfer? **12**

Addasrwydd i ymarfer:
Ein Gwaith yn 2022-2023 **20**

Crynodeb ystadegol 2022–2023 **29**

Edrych ymlaen at 2023-2024 **46**

# Rhagair

Gwnaeth effaith barhaol y pandemig coronafeirws a phwysau ar weithlu 2022–2023 yn flwyddyn eithriadol o heriol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws pedair gwlad y DU a'u pobl a'u cymunedau, y mae eu hawl i ofal diogel, effeithiol, a charedig yn gyrru'r hyn rydym yn ei wneud.

O fewn y cyd-destun hwn, roedd lleihau ein llwyth achosion ôl-pandemig, yn gyflym ac yn ddiogel, yn brif flaenoriaeth inni ac mae'n parhau felly. Rydym yn deall bod nifer uchel o achosion yn arwain at bobl yn gorfod aros yn hirach er mwyn inni gyrraedd penderfyniadau, ac mae'n ddrwg gennym am y straen mae hyn yn ei achosi i bawb a effeithir. Cafodd cynnydd cadarnhaol ei wneud â gostyngiad cynaledig yn ein llwyth achosion am y tro cyntaf ers 2019. Er i ni fethu ein targed am y flwyddyn, roeddem yn benderfynol o gynnal y cynnydd hwn ac rydym yn hyderus ym mharhad y duedd hon am i lawr oherwydd gwelliannau arwyddocaol yn ein hymagwedd, i'n helpu i gyrraedd canlyniadau sy'n diogelu'r cyhoedd orau ym mhob achos.

Mae niferoedd cynyddol o wneuthurwyr penderfyniadau sgrinio, optimeiddio'n prosesau ac ymagwedd fwy cyson at ystyried cyd-destun a sut mae gweithwyr proffesiynol wedi cryfhau eu hymarfer, oll wedi helpu i ddatrys rhagor o achosion yn gynharach. Mae cyflwyno Llinell Gymorth Atgyfeiriadau hefyd yn ein galluogi i gyfeirio pobl yn well ar yr adeg y maen nhw'n cysylltu â ni gyntaf. Rydym yn rhag-weld y bydd adolygiad o'n proses arfarnu yn helpu i gynyddu'r nifer o wrandawiadau sy'n dod i ben y tro cyntaf, a bydd cyflwyno Hyb Ymarfer Gorau yn treialu profiad mwy cydlynedig, wedi'i ganoli ar yr unigolyn, ag arolygiad mwy cyson o achosion gan arwain at ddod â hwy i ben yn gynharach.

Rydym yn deall i weithwyr proffesiynol a'r bobl a'r teuluoedd a effeithir gan bryderon, bod mynd trwy ein proses addasrwydd i ymarfer yn gallu cael effaith ar eu hiechyd a'u llesiant. Mae canolbwyntio ar yr unigolyn yn allweddol i'n gwaith â ffocws cadarn ar ddiogelu ac amrediad o gymorth ac adnoddau ar gael i weithwyr proffesiynol, cyflogwyr a'r cyhoedd fel y manylir yn yr adroddiad hwn.

Mae'n bwysig cofio bod y mwyafrif llethol o fwy na 788,000 o weithwyr proffesiynol cofrestredig yn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Ac mae ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt yn effeithio ar leiafrif bychan yn unig bob blwyddyn: cafodd 191 o benderfyniadau eu gwneud yn 2022–2023 i dynnu gweithwyr proffesiynol oddi ar y gofrestr. Rydym yn cyfnabod bod gwasanaethau iechyd a gofal yn parhau i fod o dan bwysau enfawr felly mae'n hanfodol ein bod yn cymryd cyd-destun i ystyriaeth a rhoi'r cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â'r pryderon, ond byddwn yn gweithredu bob amser pan fydd angen. Fel rheoleiddiwr, nid ydym yma i gosbi, ond i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ateb y safonau sy'n ofynnol i ymarfer yn ddiogel, i hyrwyddo dysgu, ac i atal problemau rhag codi eto i ddiogelu'r cyhoedd rhag risg.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn ogystal â hyrwyddo amrywiaeth a chynwysoldeb fel rheoleiddiwr a chyflogwr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau profiadau a chanlyniadau tecach i unrhyw un sy'n mynd drwy'r broses addasrwydd i ymarfer. Mae dysgu parhaus yn hollbwysig yn y maes hwn ac amlygodd canfyddiadau cam dau ein hymchwil Uchelgeisiol dros Newid y llynedd sut mae rhai pobl yn cael eu hatgyfeirio atom yn anghymesur neu'n cael canlyniadau gwahanol o'n prosesau. Bydd adolygiad annibynnol parhaus hefyd yn ein helpu i ddeall pam mae gweithwyr proffesiynol â nodweddion penodol yn symud ymlaen ymhellach drwy'r broses addasrwydd i ymarfer a sut i wneud y mwyaf o degwch a chysondeb.

Rydym yn ddiolchgar am arbenigedd, craffu a chymorth ein partneriaid a gwaith caled ac ystwythder ein cydweithwyr mewn helpu i leihau ein llwyth achosion, ac i ddarparu gwelliannau gwirioneddol i'n proses addasrwydd i ymarfer. Yn y dyfodol, byddwn yn canolbwyntio ar wella ein perfformiad gweithredol craidd ac yn cymhwyso amrediad o fesurau i leihau ein llwyth achosion ymhellach mewn ffyrdd fydd yn y pen draw yn cynyddu hyder y cyhoedd.

**Sir David Warren**
Cadeirydd
10 Gorffennaf 2023

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
10 Gorffennaf 2023

# Ein rôl

Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol i nyrsys a bydwragedd yn y DU ac i nyrsys cyswllt yn Lloegr. Mae ein hamcanion wedi'u hamlinellu yn y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd).

Nod trosfwaol y Cyngor yw diogelu'r cyhoedd trwy:

**a.** amddiffyn, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd

**b.** hyrwyddo a chynnal hyder cyhoeddus yn y proffesiynau a reoleiddir o dan y Gorchymyn

**c.** hyrwyddo a chynnal safonau proffesiynol ac ymddygiad cywir ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny.

Ein cyfrifoldebau rheoleiddiol yw i:

- **gynnal cofrestr** y nyrsys a bydwragedd sy'n ateb y gofynion ar gyfer cofrestru yn y DU, a nyrsys cyswllt sy'n ateb y gofynion ar gyfer cofrestru yn Lloegr
- gosod y **gofynion ar gyfer yr addysg broffesiynol** sy'n cynorthwyo pobl i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau sy'n ofynnol ar gyfer mynediad i, neu anodiad ar, ein cofrestr
- llunio ymarfer y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr trwy **ddatblygu a hyrwyddo safonau** gan gynnwys ein Cod, a hyrwyddo dysgu gydol oes trwy ailddilysu
- **ymchwilio i ac, os oes angen, gweithredu** lle codir pryderon difrifol am addasrwydd nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt i ymarfer.

Ein corff llywodraethol yw ein Cyngor, sy'n cynnwys chwech o bobl lleyg a chwech o weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr. Mae ein gwaith yn cael ei arolygu gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n adolygu gwaith rheoleiddwyr proffesiynau iechyd a gofal. Rydym yn atebol i'r Senedd trwy'r Cyfrin Gyngor. Rydym hefyd yn elusen gofrestredig a cheisiwn sicrhau bod ein holl waith yn darparu budd cyhoeddus.

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol mwy na 788,000 o nyrsys a bydwragedd proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae mewn gwireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel i nyrsys a bydwragedd ledled y DU, ac i nyrsys cyswllt yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bychan o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn cymryd ystyriaeth o'r cyd-destun y mae digwyddiadau'n digwydd ynddynt a rhoi'r cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â'r pryderon, ond byddwn yn gweithredu bob amser pan fydd angen.

I reoleiddio'n dda, rydym yn **cynorthwyo** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chyfarwyddyd sy'n ddefnyddiol trwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i ddarparu ein safonau yn ymarferol ac i fynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cynorthwyo pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein gweladwyedd er mwyn i bobl deimlo eu bod yn cymryd rhan ac wedi'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chynorthwyo ein proffesiynau yn caniatau inni **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddiol ac rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i gynorthwyo cynllunio gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector.

Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol i'n proffesiynau. Mae ein gwerthoedd yn ategu popeth rydym yn ei wneud. Maen nhw'n ffurfio sut rydym yn meddwl ac yn gweithredu.

**Rydym yn deg**

Rydym yn trin pawb yn deg. Mae tegwch wrth galon ein rôl fel rheoleiddiwr a chyflogwr dibynadwy, trryloyw.

**Rydym yn garedig**

Rydym yn gweithredu á charedigrwydd ac mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi pobl, eu mewnwelediadau, sefyllfaoedd a phrofiadau.

**Rydym yn gydweithredol**

Rydym yn gwerthfawrogi ein perthnasoedd (o fewn yn ogystal â'r tu allan i'r NMC) ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio'n dda gydag eraill.

**Rydym yn uchelgeisiol**

Mae gennym falchder yn ein gwaith. Rydym yn agored i ffyrdd newydd o weithio ac rydym yn anelu bob amser i wneud ein gorau i'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu â'n gilydd.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu un agwedd o'n rôl graidd o reoleiddio nyrsys a bydwragedd proffesiynol: ymchwilio i bryderon am eu haddasrwydd i ymarfer. Rydym yn penderfynu a yw sgiliau, gwybodaeth, addysg neu ymddygiad gweithwyr proffesiynol yn syrthio islaw'r safonau sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig. Os ydynt yn gwneud hynny, rydym wedyn yn cymryd camau i gadw'r cyhoedd yn ddiogel ac yn atal rhywbeth rhag mynd o'i le eto.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn esbonio'r hyn rydym yn ei wneud pan glywn am bryderon ac rydym yn crynhoi ein perfformiad yn ystod 2022–2023 wrth gyflawni'r rôl hon. Mae ystadegau yn cael eu darparu i ddarlunio'n gweithgaredd. Dylai'r adroddiad hwn gael ei ddarllen ochr yn ochr â'n Hadroddiad a Chyfrifon NMC Blynyddol, sy'n olwg ehangach ar ein gwaith.

# Ein cofrestr

I ymarfer fel nyrs neu fydwraig yn y DU, neu nyrs gyswllt yn Lloegr, mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ymuno â'n cofrestr. Mae hyn yn diogelu'r cyhoedd trwy sicrhau mai'r rheini sy'n gallu dangos ein safonau ar gyfer gofal diogel, caredig ac effeithiol yn unig sy'n gallu ymarfer.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd 788,638 o weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr barhaol – cynnydd o 30,351 o Fawrth 2022 (2021–2022: 758,287).

Rydym yn adolygu ansawdd a chynnwys data a gwybodaeth ein cofrestr yn barhaus. Pan fydd data gwell neu wybodaeth ychwanegol yn dod ar gael, rydym yn diweddaru ein gwybodaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol yn ôl-syllol. Mae hyn yn golygu wrth gymharu data yn ein hadroddiadau diweddaraf yn erbyn rhai o'n cyhoeddiadau blaenorol, gallwch weld newidiadau bach mewn rhai data.

### Nifer y gweithwyr proffesiynol cofrestredig yn ôl gwlad neu ranbarth y cofrestriad cychwynnol ar 31 Mawrth 2023

Lloegr **498,354**

Gogledd Iwerddon **21,970**

Yr Alban **73,052**

Cymru **31,064**

### Nifer y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr barhaol yn ôl math o gofrestriad ar 31 Mawrth 2023

**41,716** Bydwraig

**731,058** Nyrs

**6,525** Cofrestriad deuol (nyrs a bydwraig)

**9,339** Nyrs gyswllt

Cyfanswm y gofrestr **788,638**

Undeb Ewropeaidd/ Ardal Economaidd Ewropeaidd



**28,082**

Y tu allan i'r DU/UE/AEE



**136,116**

Cyfanswm y gofrestr **788,638**

# Beth yw addasrwydd i ymarfer?

Mae nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt yn addas i ymarfer os oes ganddynt y sgiliau, gwybodaeth, iechyd a chymeriad da i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig i'r cleifion a'r bobl sydd ag angen neu sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Cod yn amlinellu'r safonau rydym ni, a'r cyhoedd, yn disgwyl i nyrsys a bydwragedd proffesiynol eu cynnal i fod ar ein cofrestr a chynnal eu cofrestriad yn y DU. Gellir gweld y Cod ar ein gwefan **yma**.

Mae'n rhaid i bob nyrs, bydwraig a nyrs gyswllt ar y gofrestr ddangos pob tair blynedd eu bod yn ymarfer yn ddiogel ac yn ateb y safonau yn y Cod: gelwir hyn yn ailddilysu.

Os oes pryderon am addasrwydd nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt i ymarfer, rydym yn annog pobl i siarad yn gyntaf â'r cyflogwr am eu pryderon i weld os yw'r rhain yn gallu cael eu datrys ar lefel leol.


Lle nad yw pryderon yn gallu cael eu datrys yn lleol, neu os oes rhywun yn credu eu bod yn ddigon difrifol i ofyn am weithredu rheoleiddiol ar unwaith oddi wrthym, dylent godi'r pryderon yn uniongyrchol â ni. Byddwn wedyn yn penderfynu os oes angen i ni weithredu i ddiogelu'r cyhoedd ac, ym mhob achos, rydym yn ceisio cyrraedd canlyniad mor gynnar â phosibl.

Os ydym yn canfod bod rhywun sydd wedi'i gofrestru/chofrestru â ni yn cyflwyno risg i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y cyhoedd neu eu cydweithwyr, gallwn gyfyngu ei ymarfer neu ddileu ei hawl i weithio fel nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt.

# Proses Addasrwydd i Ymarfer

Mae hwn yn enghraifft symlach o lwybrau drwy ein proses addasrwydd i ymarfer yn 2022–2023. Nid yw pob proses wedi'i chynnwys.

Mae'r angen am orchymyn dros dro yn gallu cael ei ystyried ar unrhyw gam o'r broses.




NCTA: Dim Achos i'w Ateb

FtPC: Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer

* Newidiodd ein proses Tynnu Gwirfoddol yn Ebrill 2023 i Dynnu Cytunedig. Mae'r broses newydd yn caniatáu i bartïon ystyried gweithwyr proffesiynol yn cael eu symud o'r gofrestr cyn cam ystyriaeth Archwiliwr Achos, mewn amgylchiadau penodol.

** Mae'r cam hwn yn cynnwys paratoi'r achos i'r FtPC ei ystyried a lle bo angen, ymchwilio pellach.

## Sut mae pobl yn codi pryderon â ni

Mae unrhyw un yn gallu dweud wrthym os oes ganddynt bryderon am addasrwydd nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt i ymarfer ar unrhyw adeg. Neu, os ydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, rydym yn gallu agor achosion ein hunain.

Fel arfer, byddwn yn derbyn cwynion oddi wrth:

- Glaf neu unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt
- un o'r cyhoedd
- cyflogwr neu reolwr y nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt
- yr heddlu
- nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt yn atgyfeirio ei hun
- rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am sut i godi pryderon ar **ein gwefan**.

## Pryderon y gallwn ac na allwn eu hystyried

Gallwn ystyried prdyeron yn unig os ydynt am nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt ar ein cofrestr. Os yw'r pryderon ynghylch gweithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill, byddwn yn eu hatgyfeirio at y rheoleiddiwr perthnasol neu'r heddlu, os yn briodol.

Ein rôl yw penderfynu a yw unrhyw bryderon am addasrwydd nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt i ymarfer yn gofyn inni weithredu i ddiogelu'r cyhoedd. Gallwn edrych ar sawl math o bryder, gan gynnwys:

- camymddwyn (gan gynnwys camymddwyn clinigol)
- diffyg cymhwyster
- euogfarnau troseddol
- salwch difrifol
- heb fod â'r wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg.

Byddwn hefyd yn ymchwilio i achosion lle mae'n ymddangos bod rhywun wedi cael mynediad i'n cofrestr trwy dwyll neu'n anghywir.

## Pryderon am y rheini â chofrestriad dros dro

Rhoddwyd y pŵer i ni sefydlu cofrestr dros dro i gynorthwyo'r ymateb cenedlaethol i'r pandemig Covid-19. Gallwch ganfod manylion amdano ar **ein gwefan**.

Gan fod cofrestriad dros dro wrth ddisgresiwn y Cofrestrydd, nid yw ein prosesau addasrwydd i ymarfer arferol yn gymwys. Lle codir pryderon am unrhyw un sy'n dal cofrestriad dros dro, byddwn yn ymgymryd ag adolygiad ac ymchwiliad sylfaenol ac os oes angen, yn tynnu'r unigolyn o'r gofrestr dros dro.

Yn ystod 2022–2023:

- cafodd un pryder ei godi am weithiwr proffesiynol ar y gofrestr dros dro (2021–2022: saith pryder)
- cafodd tri o bobl eu tynnu oddi ar y gofrestr dros dro (dau achos wedi'u dwyn ymlaen o 2021–2022) (2021-2022: tri)
- ar gyfataledd, fe wnaethom gymryd 56 diwrnod i adolygu a gweithredu ar yr achosion hyn (2021–2022: 37 diwrnod).

## Sut rydym yn ymdrin â phryderon a godir â ni

Pan fydd rhywun yn codi pryder ynghylch addasrwydd i ymarfer gyda ni (a elwir hefyd yn atgyfeirio), byddwn yn edrych ar hyn yn fanylach ac yn penderfynu a oes angen unrhyw gamau rheoleiddio gan ddefnyddio tri chwestiwn allweddol:

- A oes gennym bryder ysgrifenedig am nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar ein cofrestr?
- A oes tystiolaeth o bryder difrifol a allai ei gwneud yn ofynnol i ni gymryd camau rheoleiddio i amddiffyn y cyhoedd?
- A oes tystiolaeth glir i ddangos bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio yn addas i ymarfer ar hyn o bryd?

Dyma gam cyntaf ein proses addasrwydd i ymarfer, sy'n cael ei adnabod fel sgrinio.

Mae camau y gallwn eu cymryd i'n helpu i asesu pryderon a phenderfynu a oes unrhyw weithredu rheoleiddiol yn ofynnol yn gallu cynnwys:

- ystyried yr wybodaeth rydym wedi'i derbyn i ddeall pe byddai'r pryderon a godwyd yn haeddu gweithredu rheoleiddiol
- gofyn am ragor o wybodaeth gan yr unigolyn a gysylltodd er mwyn i ni ddeall ei bryderon yn llawn
- gwirio ein cofnodion i weld a oes pryderon wedi cael eu codi o'r blaen am y nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt
- casglu gwybodaeth oddi wrth ei gyflogwr/chyflogwr
- cymryd datganiadau gan eraill a all fod wedi bod yn dystion i ddigwyddiadau a chasglu tystiolaeth arall megis nodiadau, adroddiadau neu gofnodion
- gofyn i'r nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt am ei ymateb/hymateb i'r pryderon a pha gamau mae ef/hi wedi eu cymryd i gryfhau neu newid ei ymarfer/hymarfer ers i unrhyw ddigwyddiad ddigwydd.

Gallwch ddarllen rhagor am sut rydym yn ymdrin â phryderon ar **ein gwefan**.

## Camau rheoleiddiol y gallwn eu cymryd i ddiogelu'r cyhoedd

Rydym yn penderfynu a yw'r pryder yn ddigon difrifol i gymryd camau rheoleiddiol gan ddefnyddio'r wybodaeth a grybwyllwyd. Mae'r penderfyniad hwn yn ystyried y risgiau a all godi os nad yw'r gweithiwr proffesiynol yn mynd i'r afael â'r pryder neu'n ei gywiro ac unrhyw weithredoedd sydd wedi cael eu cymryd eisoes, er enghraifft ailhyfforddi perthnasol.

Fel yr adroddir yn ddiweddarach, yn y rhan fwyaf o achosion a dderbyniwn, byddwn yn penderfynu nad oes angen cyflawni ymchwiliad i'r pryderon a godir (cafodd 76 y cant o atgyfeiriadau y gwnaethom benderfyniadau amdanynt yn 2022–2023 eu cau).

Lle bo angen, gallwn gymryd camau brys, dros dro i ddiogelu'r cyhoedd tra'n bod yn ymchwilio i bryderon. Rydym yn gwneud hyn trwy ofyn i banel annibynnol ystyried gwneud gorchymyn dros dro. **Mae dau fath o orchymyn dros dro**.

- Gorchymyn amodau ymarfer dros dro, sy'n gosod amodau bod y nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt yn gorfod cydymffurfio â nhw. Gallai enghraifft o amod fod yn weithiwr proffesiynol yn cael ei arolygu gan weithiwr proffesiynol cofrestredig arall wrth ymarfer.
- Gorchymyn atal dros dro sy'n atal cofrestriad y nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt dros dro.

Mae rhagor o wybodaeth am orchmynion dros dro ar **ein gwefan**.

Cyn gynted â'n bod wedi ymchwilio i bryderon yn drwyadl, gall ein archwilwyr achosion:

- gau'r achos heb weithredu ychwanegol os nad oes pryderon amddiffyn y cyhoedd
- rhoi cyngor i'r nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt i'w hatgoffa am y safonau proffesiynol mae'n rhaid iddynt eu cynnal
- rhoi rhybudd i'r nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt
- cytuno ar ymgymeriadau â'r nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt, sy'n gyfres o gamau mae'n rhaid iddynt eu cymryd i ddychwelyd i ymarfer diogel ac effeithiol
- atgyfeirio'r achos ar gyfer gwrandawiad neu gyfarfod.

I ddarllen rhagor am waith ein harchwilwyr achosion, ewch **i'n gwefan**.

Mewn achosion mwy difrifol lle rydym yn ystyried bod angen gosod sancsiwn i ddiogelu'r cyhoedd neu lle nad yw'r nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt yn derbyn bod pryderon am eu hymarfer, byddwn yn cynnal gwrandawiad neu gyfarfod gerbron panel annibynnol o'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Mae panelau yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ar y gofrestr (yn cael eu hadnabod fel aelodau cofrestredig) ac aelodau lleyg. Fel arfer, bydd tri aelod panel yn penderfynu ar unrhyw achos gydag o leiaf un aelod lleyg ac un aelod cofrestredig. Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am y panelau ar **ein gwefan**.

Os nad yw'r nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt yn herio'r ffeithiau neu nad yw'n dymuno mynychu gwarndawiad, gallwn gynnal cyfarfod i ganfod canlyniad cytunedig. Cynhelir cyfarfodydd yn breifat. Mae'r panel yn ystyried tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwn yn ofalus ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig mae'r nyrs, bydwriag neu nyrs gyswllt yn ei rhoi inni o flaen llaw.

Os nad yw'r nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt yn derbyn ffeithiau'r achos, neu os ydynt yn gofyn am wrandawiad, neu nad yw cyfarfod yn cael ei farnu'n briodol fel; arall, byddwn yn cynnal gwarandawiad i ystyried yr achos. Cynhelir gwarandawiadau yn gyhoeddus fel arfer. Yn y gwrandawiad byddwn yn esbonio beth yw ein pryderon rheoleiddiol ac yn galw tystion i roi tystiolaeth. Mae'r nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt yn gallu mynychu a chael ei gynrychioli/chynrychioli. Mae ef/hi, neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd, yn esbonio beth yw ei ymateb/hymateb i'n pryderon ac yn galw tystion i roi tystiolaeth. Mae gwrandawiadau yn gallu bod yn brofiad sy'n peri straen i'r rheini sy'n cymryd rhan, ond mae eu hangen weithiau ar gyfer datrys gwahaniaethau yn y dystiolaeth rhwng y partïon.

Gallwch ddarllen rhagor am sut rydym yn penderfynu a ydym yn anfon achos i wrandawiad neu gyfarfod ar **ein gwefan**.

Mewn gwrandawiad neu gyfarfod, mae panel annibynnol yn gallu gwneud un o'r canlynol:

- rhoi gorchymyn rhybudd am hyd at bum mlynedd
- gosod amodau ymarfer y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw am hyd at dair blynedd
- atal o'r gofrestr am hyd at un flwyddyn
- taro oddi ar y gofrestr
- cau'r achos heb ragor o weithredu.

Mae rhagor o wybodaeth am y camau y gall panelau annibynnol eu cymryd ar gael ar **ein gwefan**.

Yn achlysurol, byddwn yn caniatáu i nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt dynnu eu hunain yn wirfoddol o'n cofrestr heb yr angen am wrandawiad neu gyfarfod os ydym yn fodlon ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Rydym yn darparu niferoedd y tyniadau gwirfoddol ymhellach ymlaen yn yr adroddiad hwn, a ddigwyddodd o dan ein hen broses.

Yn Ebrill 2023, fe wnaethom **gyhoeddi** ein bod wedi newid y broses i dynnu cytunedig, sy'n fwy hyblyg ond yn cynnal diogelu'r cyhoedd. Un o'r newidiadau yw fod tynnu cytunedig yn gallu cael ei gytuno ar unrhyw gam o'r broses addasrwydd i ymarfer mewn amgylchiadau penodol. Mae hyn yn ein galluogi i ddiogelu'r cyhoedd mor gynnar â phosibl, tra'n lleihau'r effaith hefyd i bobl o gymryd rhan yn ein prosesau rheoleiddiol. Mae rhagor o wybodaeth am dynnu cytunedig ar **ein gwefan**.

## Gwybodaeth gyhoeddus am ein penderfyniadau

Mae gwybodaeth am wrandawiadau sydd i ddod a phenderfyniadau panel diweddar ar **ein gwefan**.

Pan fydd penderfyniadau rheoleiddiol yn cael eu gwneud am addasrwydd rhywun i ymarfer, byddwn yn esabonio'r rhesymau i'r unigolyn a gododd y pryderon â ni ac i'r nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllr dan sylw.

- Os byddwn yn penderfynu cymryd camau rheoleiddiol i ddiogelu'r cyhoedd, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan fel bod unrhyw un yn gallu gweld y penderfyniadau rydym wedi'u cymryd a pham.
- Pan fydd panel yn gosod gorchymyn dros dro, byddwn yn cyhoeddi'r canlyniad ac yn ei nodi ar gofnod y nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt ar y gofrestr.
- Pan fydd archwilwyr achosion yn rhoi rhybudd neu'n cytuno ar ymgymeriadau, mae'r honiadau a'r canlyniad yn cael eu cyhoeddi ar gofnod y nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt ar y gofrestr.
- Pan fydd panel yn penderfynu rhoi rhybudd, amodau ymarfer, ataliad, neu orchymyn taro i ffwrdd, byddwn yn cyhoeddi rhesymau llawn y panel ac yn nodi'r canlyniad ar gofnod y nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt ar y gofrestr.

Mewn achosion sy'n ymwneud â iechyd unigolyn neu sydd â gwybodaeth bersonol sensitif arall, byddwn yn dal i gyhoeddi gwybodaeth, fel arfer yn llai manwl. Y ffordd honno, rydym yn diogelu'r cyhoedd ac yn parchu preifatrwydd yr unigolyn. Pan benderfynwn gau achos heb weithredu ychwanegol, ni fyddwn fel arfer yn cyhoeddi gwybodaeth oherwydd nad oes rheswm i wneud hynny i ddiogelu'r cyhoedd ac mae gennym gyfrifoldeb i ddiogelu preifatrwydd y rheini sy'n cymryd rhan. Mae rhagor o wybodaeth ar ein cyfarwyddyd cyhoeddi ar gael ar **ein gwefan**.

Mae ein cofrestr o nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt **ar-lein**.

# Addasrwydd i ymarfer: Ein Gwaith yn 2022-2023

Roedd lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer yn ddiogel yn brif flaenoriaeth inni yn 2022–2023. Mae hyn y n bwysig er mwyn hyder cyhoeddus gan fod addasrwydd i ymarfer yn ymwneud a rheoli'r risg y gall nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt beri i gleifion neu'r cyhoedd yn y dyfodol.

Er na wnaethom gyflawni ein targed llwyth achosion o 5,000, cafodd cynnydd cadarnhaol ei wneud wrth inni weld gostyngiad parhaol yn y llwyth achosion am y tro cyntaf ers 2019.

Dyblodd ein llwyth achosion rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2022, â'r cynnydd yn 2019–2020 yn cael ei ddwysáu gan effeithiau'r pandemig a phenderfyniadau a wnaethom i oedi gwaith achosion nad oedd yn ofynnol i reoli risg.

Mae cael llwyth achosion uchel wedi golygu bod pobl yn aros yn hirach inni gyrraedd penderfyniadau. Rydym yn gwybod yr effaith sydd gan hyn ar bawb sy'n cymryd rhan, a dyna pam mae lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer yn ddiogel ac yn gyflym yn parhau'n flaenoriaeth gorfforaethol rhif un inni.


## Darlun y llwyth achosion

Yn ystod 2022–2023, fe wnaethom leihau ein llwyth achosion o 6,469 achos ar 31 Mawrth 2022 i 5,577 achos ar ddiwedd Mawrth 2023. Roedd hyn yn brin o'n targed o 5,000 achos erbyn Mawrth 2023 ond mae'n cynrychioli gostyngiad o 14 y cant ac mae'n ostyngiad parhaol cyntaf mewn llwyth achosion ers 2019.

Tabl yn dangos tueddiadau llwyth achosion tymor hirach:

| Blwyddyn | Atgyfeiriadau a dderbyniwyd | Achosion a gwblhawyd | Llwyth achosion ar ddiwedd blwyddyn | Newid blynyddol mewn llwyth achosion | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwirioneddol | Y cant |
| 2019–2020 | 5,704 | 4,358 | 4,506 | +1,363 | +43% |
| 2020–2021 | 5,547 | 3,701 | 6,357 | +1,851 | +41% |
| 2021–2022 | 5,291 | 5,170 | 6,469 | +112 | +2% |
| 2022–2023 | 5,068 | 5,832 | 5,577 | -892 | -14% |

Graff yn dangos y llwyth achosion dros 2022–2023, fesul cam addasrwydd i ymarfer:




# Gwelliannau a wnaethom yn ystod 2022–2023

Yn ystod 2021–2022 fe wnaethom redeg rhaglen wella a gafodd ychydig o effaith yn anffodus ar niferoedd ein llwyth achosion. Yn 2022–2023 fe wnaethom adolygu ein hymagwedd a chanolbwyntio ar nifer lai o gynlluniau â mwy o effaith. Fe wnaethom hefyd flaenoriaethu symud ein hachosion hynaf a'r risg uchaf ymlaen, i helpu diogelu'r cyhoedd a mynd i'r afael â'r oediadau mae pobl wedi bod yn eu profi.

### Cynlluniau allweddol wrth sgrinio

Cam cyntaf ein proses addasrwydd i ymarfer yw sgrinio ac ar 31 Mawrth 2022 roedd ein llwyth achosion sgrinio yn 3,469, sy'n cynrychioli dros 50 y cant o gyfanswm ein llwyth achosion ar y pryd.

Yn haf 2022 fe wnaethom gynyddu'r nifer o wneuthurwyr penderfyniadau o fewn ein tîm sgrinio ac o ganlyniad cynyddodd lefelau ein hallbwn.

Fe wnaethom nifer o newidiadau proses yn ystod gweddill y flwyddyn a olygai y gallem leihau'r nifer o wneuthurwyr penderfyniadau sydd gennym, tra'n cynnal ein perfformiad gwell. O ganlyniad, roedd ein llwyth achosion sgrinio yn 2,341 ar 31 Mawrth 2023, gostyngiad o 33 y cant o achosion ar y cam hwnnw dros gwrs y flwyddyn.

Fe wnaethom adolygiadau i'n cyfarwyddyd sgrinio yn 2021–2022. Mae'r newidadau wedi'n galluogi ni i gymryd ymagwedd fwy cyson, wrth sgrinio achosion, at ystyried y cyd-destun o gwmpas digwyddiad a thystiolaeth gweithwyr proffesiynol yn cryfhau eu hymarfer ers y digwyddiad. Mae'r newidiadau yn cael effaith gynyddol gadarnhaol yn awr wrth inni allu datrys rhagor o achosion wrth sgrinio.

Mae ymagwedd wedi'i chanoli ar yr unigolyn yn parhau'n allweddol i'n gwaith wrth sgrinio ac yn Rhagfyr 2022 fe wnaethom lansio Llinell Gymorth Atgyfeiriadau Newydd wedi'i hanelu'n bennaf at ddarparu cymorth i'r cyhoedd sy'n ystyried codi pryder â ni.

Mae'r llinell gymorth hon yn golygu bod y cyhoedd yn gallu ein galw cyn iddynt wneud atgyfeiriad er mwyn i ni allu rhoi'r wybodaeth, cymorth ac eglurder sydd eu hangen arnynt naill ai i wneud atgyfeiriad inni neu er mwyn inni eu cyfeirio at sefydliadau eraill a all fod mewn sefyllfa well i'w helpu nac yr ydym ni.

Rhwng Ionawr a Mawrth 2023, fe wnaethom dderbyn cyfartaledd o 359 galwad y mis i'r llinell gymorth ac fe wnaethom ddysgu bod angen inni wneud mwy i roi cyhoeddusrwydd i fodolaeth a phwrpas y llinell gymorth. Cafodd gwybodaeth gwefan ei diwygio. Yn gynnar yn 2023–2024, byddwn yn lansio fersiwn ddiwygiedig o'n ffurflen addasrwydd i ymarfer ar-lein fydd hefyd yn annog pobl i alw ein llinell gymorth a chyrchu'r cymorth sy'n cael ei gynnig.

### Cynlluniau allweddol mewn ymchwiliadau

Ymchwilio yw ail gam ein proses a rhwng Mawrth 2022 a Mawrth 2023 gwelsom gynnydd o 64 achos ar yr adeg hon. Mae hyn yn gynnydd cymharol fach sydd yn rhannol oherwydd y newidiadau a grybwyllwyd yn gynharach sy'n golygu bod rhagor o achosion yn gallu dod i ben ar y cam sgrinio.

Mae ein ffocws ar achosion hŷn a risg uwch wedi arwain at niferoedd allbwn is. Er mwyn cefnogi timau a gwella perfformiad, cyflwynwyd amrywiaeth o offer rheoli achosion ar gyfer ein hymchwilwyr a'n rheolwyr.

Rydym yn meddwl y bydd ein timau yn elwa o weithio'n agosach â'i gilydd ac ym Mawrth 2023, fe wnaethom symud o ymagwedd gweithio hybrid wahanol ar gyfer ein tîm Ymchwiliadau. Disgwylir i holl aelodau'r tîm fynychu ein swyddfeydd am o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos o Fai 2023. Byddwn yn cadw effaith y symud hwn o dan adolygiad wrth inni symud ymlaen trwy 2023–2024.

### Cynlluniau allweddol ar y cam archwilwyr achosion

Trydydd cam ein proses yw archwilwyr achosion, lle rydym yn penderfynu os oes angen i banel annibynnol ystyried yr achos.

Fe wnaethom ddechrau'r flwyddyn â llwyth achosion o lai na 300 ar yr adeg hon ac fe wnaethom y penderfyniad yn rhagweithiol i ddefnyddio adnoddau dros dro i feysydd addasrwydd i ymarfer eraill, fel sgrinio. Fel y rhagwelwyd, cyfrannodd hyn at gynnydd yn llwyth achosion yr archwiliwyr yn ail hanner y flwyddyn ond gostyngiad arwyddocaol yn y llwyth achsoion yn gyffredinol.

Cynyddodd a gwellodd ein perfformiad allbwn ar ddiwedd y flwyddyn ac fe wnaethom orffen y flwyddyn â 355 achos. Mae'r tîm wedi'i leoli'n dda ar gyfer 2023–2024 i fod yn derbyn rhagor o achosion o'n tîm Ymchwiliadau i benderfynu arnynt.

### Cynlluniau allweddol wrth ddyfarnu

Cam olaf ein proses yw dyfarnu lle rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o achosion sy'n aros am benderfyniad gan banel.

Roedd ein prif ffocws yn ystod y flwyddyn ar wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwrandawiadau rhithwir. Fe wnaethom newid i blatfform cynadledda fideo gwahanol ar gyfer ein rhyngweithrediadau â phartïon achosion ac arweiniodd hyn at lai o oediadau technegol. Mae Microsoft Teams yn cael ei ddefnyddio yn awr fel mater o drefn.

Fe wnaethom hefyd gomisiynu cymorth allanol i adolygu ein ffyrdd o weithredu ar y cam dyfarnu, i sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r adolygiad hwn yn parhau i mewn i 2023–2024. Bydd yn adnabod cyfleoedd i gynyddu'r nifer o wrandawiadau sy'n dod i ben y tro cyntaf, yn ogystal â chyfleoedd arwyddocaol eraill ar gyfer gwella. Gallai hyn gynnwys cynnal mwy o'n gweithgaredd dyfarnu yn y cnawd yn hytrach nac yn rhithwir.

## Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad (EDI)

Fel rheoleiddiwr a chyflogwr, mae gennym gyfrifoldeb i wneud popeth a allwn i fynd i'r afael â gwahaniaethu a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad. Mae'n cynllun EDI 2022–2025 yn amlinellu sut y byddwn yn integreiddio EDI yn ystyrlon ar draws ein holl waith i ddarparu profiadau a chanlyniadau tecach i'n cydweithwyr, y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a'r cyhoedd a wasanaethwn. Fe wnaethom ddechrau gweithredu ein cynllun EDI ym Mai 2022, er ein bod yn cydnabod bod llawer gennym i'w wneud o hyd i allu cael effaith.

Mae'n hymchwil Uchelgeisiol dros Newid yn anelu at asesu'r effaith mae ein prosesau rheoleiddiol yn ei chael ar grwpiau gwahanol o nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt. Yn Awst 2022, fe wnaethom **gyhoeddi canfyddiadau** a gyfer ail gam yr ymchwil, oedd wedi canolbwyntio ar ddeall pam yr atgyfeirir rhai pobl yn anghymesur atom neu'n derbyn canlyniadau gwahanol o'n prosesau, a'r hyn mae hyn yn ei olygu i'r gweithwyr proffesiynol sy'n cymryd rhan. Yn ogystal â'r effaith lethol mae hyn yn ei chael ar weithwyr proffesiynol, rydym yn gwybod o ymchwil ehangach bod triniaeth deg o weithwyr proffesiynol gofal iechyd yn gysylltiedig â gofal gwell i'r cyhoedd a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae anghydraddoldebau yn y sector iechyd a gofal, a chymdeithas ehangach, yn effeithio'n uniongyrchol ar ddarparu gofal effeithiol wedi'i ganolbwyntio ar unigolyn, ac er mwyn cyflawni ein rôl reoleiddiol mae angen inni ddal ein hunain a phartneriaid yn atebol am ein rhan yn yr anghydraddoldebau hyn.

Fe wnaethom ymgymryd â nifer o weithredoedd yn 2022–2023, a rhai o'r rhain yn parhau i mewn i 2023–2024:

- Fe wnaethom gyflwyno hyfforddiant EDI gloywi a dechreuwyr newydd i aelodau panel, sy'n cynnwys ffocws ar wahaniaethu.
- O'n hymchwil Uchelgeisiol dros Newid rydym yn gwybod bod achosion sy'n ymwneud â gweithwyr proffesiynol sy'n nodi eu bod yn wrywaidd, yn anabl neu'n Ddu, neu'r rhai y mae'n well ganddynt beidio â dweud wrthym beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol yn symud ymlaen ymhellach drwy ein prosesau o gymharu â grwpiau eraill ac rydym hefyd yn gweld mwy o wahaniaethau mewn canlyniadau addasrwydd i ymarfer ar gyfer y grwpiau hyn. Fe wnaethom gomisiynu adolygiad annibynnol o apeliadau cofrestru ac achosion addasrwydd i ymarfer i'n helpu i ddeall pam. Bydd yr adolygiad yn ein galluogi i wneud addasiadau pellach i'n ffyrdd o weithio, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch pan fyddwn yn ymdrin â phob achos o'r fath. Disgwylir i'r adolygiad gael ei gwblhau yn 2023–2024.

- Fe wnaethom ystyried sut y gallem wella mynediad i bobl sy'n dymuno arsylwi ar wrandawiadau sy'n cael eu cynnal yn rhithwir, tra'n sicrhau ein bod yn cynnal cyfrinachedd priodol i'r partïon sy'n cymryd rhan. O Ebrill 2023, mae mynediad gweledol o bell, i wrandawiadau wedi cael ei ddarparu i arsylwyr am y tro cyntaf.
- Fe wnaethom barhau i ddiweddaru ein cyfarwyddyd addasrwydd i ymarfer i sicrhau bod eglurder ar sut rydym yn rheoli achosion ac enghreifftiau o wahaniaethu, naill ai fel rhan o'r honiadau neu fel rhan o sut rydym yn ymdrin ag achosion. Er enghraifft mae ein cyfarwyddyd yn awr yn egluro y dylem edrych i mewn i bryderon sy'n ymwneud â gwahaniaethu, boed yn digwydd y tu mewn neu'r tu allan i'r cyd-destun proffesiynol.

Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi data EDI ar gyfer y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'n proses addasrwydd i ymarfer, er enghraifft am atgyfeiriadau atom a hefyd canlyniadau addasrwydd i ymarfer. Gellir dod o hyd i'r data hwn ar **ein gwefan**.

# Cynorthwyo pobl

Mae mynd trwy ein proses addasrwydd i ymarfer yn gallu bod yn adeg emosiynol i'r rheini sy'n cymryd rhan. I weithwyr proffesiynol a'r bobl a'r teuluoedd a effeithir gan bryderon a godir, mae hyn yn gallu cael effaith ar eu hiechyd a'u llesiant. Mae gennym amrediad o adnoddau ar gael i bobl, sy'n anelu at eu cynorthwyo trwy'r adeg hon. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys llinell gymorth cefnogaeth emosiynol i'r cyhoedd, y Llinell Ofal Addasrwydd i Ymarfer ar gyfer gweithwyr proffesiynol, a'n Gwasanaeth Dolen Cyflogwyr (ELS) ar gyfer cyflogwyr gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal. Rydym yn annog unigolion i geisio'r cymorth sydd ei angen arnynt trwy'r sianelau hyn.

Mae ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus (PSS) hefyd yn darparu gwybodaeth ar sut mae'r broses addasrwydd i ymarfer yn gweithio ac mae'n ymgysylltu â ac yn gwrando ar bobl a all wynebu anawsterau â'n proses addasrwydd i ymarfer. Rydym yn gweithio gyda phobl ag anghenion ychwanegol cymhleth i sicrhau eu bod yn cael eu cynorthwyo'n effeithiol i gymryd rhan yn y broses a'n bod yn gwneud yr addasiadau angenrheidiol i'w cynorthwyo. Gallai hyn gynnwys y defnydd o eiriolwr neu gyfryngwr.

Yn 2022–2023 fe wnaethom gyflwyno Arweinydd Cynorthwyo ac Ymgysylltu Proffesiynol newydd. Mae'r rôl yn datblygu ac yn darparu gwelliannau i sut rydym yn cynorthwyo ac yn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol. Mae'r ffocws ar hyn o bryd ar weithwyr proffesiynol y mae eu haddasrwydd i ymarfer yn cael ei ymchwilio, a chynlluniau i'r dyfodol hefyd i ddatblygu cymorth gwell i weithwyr proffesiynol sy'n mynd trwy ein prosesau cofrestru ac ailddilysu.

### Cymorth i'r cyhoedd a'r rheini sy'n codi pryderon â ni

Parhaodd ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus (PSS) i dyfu dros y flwyddyn, a ffocws ar gryfhau ei bartneriaeth â cham Ymchwiliadau'r broses addasrwydd i ymarfer. Mae timau Ymchwiliadau yn cael eu partneru â Swyddogion Cymorth Cyhoeddus dynodedig er mwyn i gydweithwyr allu gweithio ar y cyd mewn cynnig cymorth i dystion a'r cyhoedd.

Mae hyn yn ogystal â'r cymorth a ddarperir ar draws y rhannau eraill o'r broses addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys cymorth pen i ben i unigolion y mae angen neilltuol ar eu cyfer.

Eleni, cafodd 765 o atgyfeiriadau eu gwneud gan berchnogion achosion i'r PSS am gymorth ychwanegol i bobl. Mae natur y cymorth yn gallu amrywio, o gymorth untro i gymorth manwl parhaol am gyfnod ymgysylltiad unigolyn â'r NMC.

Darparodd ein llinell deleffon gymorth emosiynol 24 awr gymorth am ddim, annibynnol, cyfrinachol,nad yw'n barnu i bobl. Digwyddodd 729 o alwadau ffôn a chyfnewidiwyd 404 o negeseuon e-bost neu destun yn 2022–2023.

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, lansiodd ein Llinell Gymorth Atgyfeiriadau Newydd yn Rhagfyr 2022 i helpu'r cyhoedd wrth wneud atgyfeiriad.

Mae'n gwasanaeth Eiriolaeth annibynnol yn helpu'r cyhoedd sydd ag angen cymorth ychwanegol wrth ryngweithio â'n prosesau. Mae'r gwasanaeth yn helpu i sicrhau bod pobl yn deall ein cyfathrebiadau ac yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â'r broses addasrwydd i ymarfer.

Rydym yn awr hefyd yn darparu gwasanaeth Cyfryngol annibynnol sy'n helpu i ateb anghenion tystion a all fod ag angen cymorth cyfathrebu ychwanegol fel addasiad rhesymol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Ni oedd rheoleiddiwr gofal iechyd cyntaf y DU i wneud hyn.

Mae'n **gwefan** yn darparu rhagor o wybodaeth am ein gwaith a manylion ychwanegol ar sut rydym yn gallu cynorthwyo pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'u teuluoedd.

### Cymorth i gyflogwyr

Mae'n Gwasanaeth Dolen Cyflogwyr (ELS) yn darparu cymorth addasrwydd i ymarfer i gyflogwyr nyrsys a bydwragedd proffesiynol trwy:

- ymateb i a helpu cyflogwyr i reoli pryderon addasrwydd i ymarfer posibl am weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr
- cyfathrebu prif negeseuon proffesiynol rheoleiddiol
- annog rheolaeth leol o bryderon lle mae'r cyd-destyn yn caniatáu inni wneud hynny
- adeiladu rhagor o ddealtwriaeth a mewnwelediad o'r dirwedd y mae gweithwyr proffesiynol yn darparu gofal o'i mewn.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill, iechyd rhanbarthol a chenedlaethol, ac asiantaethau gofal. Rydym wedi cefnogi dyddiau astudio, cynadleddau a gweminarau i drafod ein prosesau, sut i ddefnyddio ein Cod a pha bryderon y gallwn fynd i'r afael â hwy.

Mae'n Llinell Gymorth Cyflogwyr (EAL) yn galluogi sefydliadau i gysylltu a'n Cynghorwyr Rheoleiddio pan fydd ganddynt bryderon am addasrwydd unigolyn i ymarfer. Yn 2022–2023, derbyniodd yr EAL 986 galwad (744 yn 2021–2022). O'r rheini, cafodd 54 y cant eu darparu â chyngor i wneud atgyfeiriad atom (50 y cant yn 2021–2022).

Mae rhagor o wybodaeth am ein cymorth i gyflogwyr ar gael ar **ein gwefan**.

### Cynorthwyo a diogelu gweithwyr proffesiynol

Mae ein polisïau a phrotocolau Diogelu a Risg Hunanladdiad a Hunan-niweidio mewn grym i helpu cydweithwyr i adnabod a rheoli unrhyw bryderon diogelu.

Lle codir pryderon, mae'r rhain yn cael eu hadolygu ac rydym yn darparu'r lefel gywir o gymorth i'r unigolyn dan sylw. Fe wnaethom benodi Arweinydd Diogelu NMC yn 2022–2023 sy'n darparu cymorth cynghorol uniongyrchol i staff a all fod ag angen cymorth mewn mynd i'r afael â phryderon diogelu.

Yn 2022–2023, cafodd 100 o bryderon diogelu eu codi mewn perthynas â'n proses addasrwydd i ymarfer. Rydym yn cofnodi achosion lle rydym yn dysgu bod gweithiwr proffesiynol yn anffodus wedi cymryd ei fywyd ei hun tra bo'n hachosion yn parhau, i'n helpu i adnabod unrhyw ddysgu i wella ein prosesau. Yn 2022–2023, roedd dwy farwolaeth wedi'u cofnodi (2021–2022: tri achos; 2020–2021: dim achos). Rydym yn dilyn gwneud rhagor o ymchwil ar fanylion am achosion eraill a bydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Mae gweithwyr proffesiynol yn cael eu cyfeirio fel mater o drefn at ein Llinell Ofal Addasrwydd i Ymarfer annibynnol sy'n cynnig cyngor a chymorth cyfrinachol emosiynol ac ymarferol i nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt. Mae rhagor o wybodaeth i'w chanfod **yma**. Bydd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i asiantaethau allanol perthnasol lle gall rhywun fod ag angen cymorth gwell.Yn 2023–2024, bydd staff yn ymgymryd â phecyn newydd o hyfforddiant diogelu, yn seiliedig ar eu lefel o ryngweithredoedd â phobl a all fod mewn perygl o niwed. Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gallwn adeiladu prosesau diogelu wedi'u teilwra trwy gydol y broses addasrwydd i ymarfer i adnabod ac ymateb i anghenion diogelu.

# Diogelwch mamolaeth

Mae gwasanaethau mamolaeth wedi bod o dan bwysau dwys eleni yn dilyn methiannau arwyddocaol yr adroddwyd amdanynt mewn ymchwiliadau a gyhoeddwyd. Mae ein meddyliau gyda'r teuluoedd a effeithiwyd ac rydym yn awyddus i gynorthwyo'r ymatebion cenedlaethol a lleol i argymhellion yr ymchwiliadau hyn.

Er budd diogelwch menywod, babanod a'u teuluoedd fe wnaethom weithredu mewn perthynas â phryderon addasrwydd i ymarfer, lle'n briodol. Fe wnaethom ymgysylltu â'r ymchwiliadau cyhoeddus, gan gysylltu â thimau ymchwiliad i gynorthwyo eu hadolygiadau. Fe wnaethom asesu a oedd angen inni wneud unrhyw atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer a hefyd fe wnaethom gynorthwyo'r timau ymchwilio a'r heddlu mewn helpu i benderfynu hyn.

Fe wnaethom gynnal adolygiad o achosion addasrwydd i ymarfer a atgyfeiriwyd atom mewn perthynas â'r adolygiadau yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai yr Amwythig a Telford, Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Ysbytai Dwyrain Caint ac Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Nottingham. Y nod oedd deall sut y gwnaethom gymryd ffactorau cyd-destun i ystyriaeth wrth ymdrin â'r achosion hyn a gwneud ein penderfyniadau.

Roedd eisiau dysgu arnom a ydym wedi bod yn cymryd ymagwedd deg a chymesur at achosion yn ymwneud ag ymchwiliadau mawr a hefyd a oedd rhagor y gallwn ei wneud i gynorthwyo ymateb ledled system i fynd i'r afael â methiannau mewn gwasanaethau mamolaeth. Mae'r adroddiad yn cael ei orffen yn 2023–2024.

# Crynodeb ystadegol 2022–2023

# Ein prif ddangosyddion perfformiad

Yn 2022–2023, fe wnaethom barhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar leihau'r llwyth achosion addasrwydd i ymarfer. Mae'n nod strategol cyffredinol, fodd bynnag, wedi aros yr un peth: mae eisiau cyrraedd canlyniad arnom sy'n diogelu'r cyhoedd orau mor gynnar â phosibl ym mhob achos.

Rydym yn mesur hyn trwy ddau brif ddangosydd perfformiad, rydym yn adrodd amdanynt yn gyhoeddus. Eleni ni wnaethom gyrraedd ein targedau ar gyfer y nail KPI na'r llall. Â lefel y llwyth achosion yn uwch na 6,000 ar ddechrau'r flwyddyn, roeddem yn gwybod y byddai gostwng y llwyth achosion i lefel well yn cymryd amser ac fe wnaethom rag-weld y byddai'n perfformiad KPI yn 2022–2023 yn cael ei effeithio.

**Gosodwyd gorchmynion dros dro**

**Ein targed**

Fel mae'n angenrheidiol, rydym yn anelu at osod 80 y cant o orchmynion dros dro (IO) o fewn 28 diwrnod o dderbyn y pryderon.

**Ein perfformiad**

Fe wnaethom osod 65 y cant o orchmynion dros dro o fewn 28 diwrnod o dderbyn pryderon (2021–2022: 77 y cant).

Fe wnaethom fethu'r targed ar gyfer 2022–2023 oherwydd nifer o ffactorau megis:

- ffocws o'r newydd mewn sgrinio ar achosion risg uwch oedd wedi bod yn disgwyl / heb gael eu hadolygu am gyfnod, yn rhannol oherwydd arolygiaeth annigonol gan reolwyr a phroblemau swyddi gwag cyson. Symudodd hyn nifer o'r achosion hŷn hynny yn eu blaenau, a gorchmynion dros dro wedyn yn cael eu gosod ar rai ond y tu allan i'r KPI.
- cynnydd yn swm y gwrandawiadau gorchmynion dros dro newydd gofynnol, oedd wedi mynd y tu hwnt i'r capasiti oedd gennym ar gael.
- Panelau yn gohirio ceisiadau gorchmynion dros dro er budd tegwch i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw, i ganiatáu rhagor o amser i'r gweithiwr proffesiynol baratoi ei achos.

Fel rhan o'n prosesau sicrwydd ansawdd a dysgu parhaus, rydym yn adolygu pob achos (â gorchymyn) bob mis nad oedd wedi cael eu rhestru ar gyfer gwrandawiad Gorchymyn Dros Dro o fewn 28 diwrnod o dderbyn y pryder. Rydym hefyd yn adolygu pob achos lle mae cais gorchymyn dros dro wedi cael ei wneud ond a benderfynwyd yn ddiangen gan y panel.

O'r adolygiadau hyn, rydym wedi'n sicrhau na chafodd dim materion newydd oedd yn gofyn am orchymyn dros dro eu derbyn yn yr amser y cymerodd i gael yr achosion gwreiddiol i wrandawiad gorchymyn dros dro. Rydym felly wedi'n sicrhau nad oedd effaith andwyol ar ddiogelwch y cyhoedd, er gwaetha'r gostyngiad mewn perfformiad yn erbyn ein KPI.

**Amseroldeb mewn dod ag achosion i ben**

Ein targed

Rydym yn anelu at gwblhau 80 y cant o'n hachosion o fewn 15 mis o dderbyn pryderon.

Ein perfformiad

Fe wnaethom gwblhau 61 y cant o achosion o fewn 15 mis o dderbyn pryderon (2021–2022: 62 y cant).

Ni wnaethom gyrraedd y mesur hwn yn 2022–2023 ac nid ydym wedi bod yn ateb Safon Rheoliad Da yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer amseroldeb symud achosion yn eu blaenau ers 2019. Rydym yn disgwyl gweld perfformiad gwell wrth inni barhau i leihau ein llwyth achosion ar draws y broses ac yn enwedig wrth sgrinio, trwy ein gwelliannau sgrinio yn 2023–2024.

## Nifer y pryderon

Yn 2022–2023 fe wnaethom dderbyn 5,068 o bryderon newydd, gostyngiad (4 y cant) o llynedd (2021–2022: 5,291). Mae hyn wedi'i osod yn erbyn cefnlen cofrestr sy'n tyfu, felly mae'r gyfran o weithwyr proffesiynol cofrestredig a atgyfeirir atom hyd yn oed yn llai eleni.

| | 2022-2023 | 2021-2022 | 2020-2021 |
|---|---|---|---|
| Nifer y pryderon a dderbyniwyd | 5,068 | 5,291 | 5,547 |
| Canran y gofrestr | 0.64% | 0.70% | 0.76% |

# Ffynonellau pryder

Mae tabl 1 yn dangos dadansoddiad o ffynonellau'r pryderon a dderbyniwyd gennym yn 2022–2023. Rydym wedi gweld gostyngiad o gymharu â llynedd yn swm a chyfran y pryderon a godwyd gan y cyhoedd, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd. Cynyddodd y nifer o atgyfeiriadau a dderbyniwyd oddi wrth gyflogwyr ychydig o llynedd. Bydd ein gwaith gwella yn 2023–2024 yn parhau i'n gweld yn ymgysylltu â chyflogwyr i'w cynorthwyo mewn penderfynu a ddylai pryder gael ei atgyfeirio atom ni.

**Tabl 1**

**Ffynonellau pryderon a atgyfeiriwyd atom ni**

| | 2022–2023 | | 2021–2022 | 2020–2021 |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer y pryderon newydd | Canran y pryderon newydd | Canran y pryderon newydd | Canran y pryderon newydd |
| **Pwy atgyfeiriodd bryderon atom** | | | | |
| Claf/cyhoedd | 1,687 | 33% | 38% | 35% |
| Hunanatgyfeiriad | 464 | 9% | 7% | 7% |
| Cyflogwr | 1,323 | 26% | 24% | 25% |
| Agorwyd gan yr NMC | 198 | 4% | 4% | 3% |
| Gweithiwr cofrestredig arall | 434 | 9% | 6% | 5% |
| Rheoleiddiwr arall | 41 | <1% | <1% | 1% |
| Atgyfeiriwr yn anhysbys | 622 | 12% | 13% | 14% |
| Unrhyw hysbysydd arall | 299 | 6% | 8% | 10% |
| **Cyfanswm** | **5,068** | **100%** | **100%** | **100%** |

# Pryderon lle nad ydym yn enwi nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt

Pan fyddwn yn derbyn pryderon newydd rydym yn defnyddio tri chwestiwn allweddol yn ein proses sgrinio i benderfynu a oes angen ymchwiliad llawn ar achos. Am ragor o wybodaeth ar yr hyn sy'n digwydd pan dderbyniwn bryder, ewch **i'n gwefan**.

Mewn rhai achosion a godir â ni, nid ydym yn gallu, neu nid ydym, yn enwi'r unigolyn dan sylw fel rhywun ar ein cofrestr. Yn 2022–2023, ni wnaethom symud ymlaen â 1,323 o achosion gan na wnaethom enwi nyrs, bydwraig na nyrs gyswllt (2021–2022: 1,220).

## Pryderon fesul gwlad cyfeiriad cofrestredig

Mae'r diagram canlynol yn ddadansoddiad o wledydd cyfeiriad cofrestredig yn y 3,348 achos lle gallem enwi nyrs, bydwriag neu nyrs gyswllt. Mae'r diagram yn cynnwys y dadansoddiad pedair gwlad o bryderon newydd, wedi'i gymharu â'r cyfrannau o bobl ar y gofrestr sy'n byw yn y gwledydd hynny.

### Yr Alban

**378** achosion

**11%** pryderon llwyr

**9%** Gwlad fel cyfran o'r gofrestr

### Lloegr

**2,615** achosion

**78%** pryderon llwyr

**77%** Gwlad fel cyfran o'r gofrestr

### Cymru

**192** achosion

**6%** pryderon llwyr

**5%** Gwlad fel cyfran o'r gofrestr

### Gogledd Iwerddon

**106** achosion

**2%** pryderon llwyr

**4%** Gwlad fel cyfran o'r gofrestr

### Dramor/UE

**57** achosion

**3%** pryderon llwyr

**5%** Gwlad fel cyfran o'r gofrestr

## Pryderon fesul math o gofrestriad

Gall unigolyn gael ei gofrestru â ni fel nyrs neu fydwraig, fel nyrs yn ogystal â bydwraig (adnabyddir fel cofrestriad deuol) neu fel nyrs gyswllt.

Mae tabl 2 yn dangos y nifer o atgyfeiriadau newydd wedi'u dadansoddi fesul math o gofrestriad. Nid oes newid materol wedi bod yn y gyfran o atgyfeiriadau fesul math o gofrestriad o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, ac eithrio gostyngiad bach yn y gyfran o fydwragedd yn cael eu hatgyfeirio o gymharu â 2021–2022.

**Tabl 2**

**Atgyfeiriadau Newydd fesul math o gofrestriad**

| | 2022–2023 | | 2021–2022 | 2020–2021 |
|---|---|---|---|---|
| **Math o gofrestriad** | **Nifer yr atgyfeiriadau newydd** | **Canran o gyfanswm atgyfeiriadau (canran y gweithwyr proffesiynol ar y gofrestr)** | **Canran cyfanswm yr atgyfeiriadau** | **Canran cy-fanswm yr atgyfeiriadau** |
| Nyrs | 3,152 | 94% (93%) | 94% | 95% |
| Bydwraig | 169 | 5% (5%) | 6% | 5% |
| Cofrestriad deuol | 3 | <1% (<1%) | <1% | <1% |
| Nyrs gyswllt | 24 | <1% (1%) | <1% | <1% |
| **Cyfanswm** | **3,348** | **100%** | **100%** | **100%** |

## Canlyniadau asesu cychwynnol

Yn 2022–2023, fe wnaethom benderfynu peidio ag ymchwilio i 4,639 achos ar ôl asesiad cychwynnol naill ai oherwydd  y daethom i'r casgliad nad oedd y pryderon yn gofyn am weithredu rheoleiddiol, neu oherwydd nad oeddem yn gallu enwi nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Mae hyn yn cyfateb i 76 y cant o ganlyniadau asesiadau cychwynnol heb fod yn gofyn am ymchwiliad ychwanegol (cau), sy'n is nac ar gyfer llynedd ond yn cynnal tuedd uwch nac yn y blynyddoedd blaenorol. Yn 2021–2022, fe wnaethom benderfynu peidio ag ymchwilio i 78 y cant ac yn 2020–2021, roedd yn 68 y cant. Mae un o nodau ein gwaith gwella i leihau'r llwyth achosion wedi bod i wneud penderfyniadau terfynol ar achosion ar y cam cynharaf posibl ac mae'n ymddangos ein bod yn gwneud cynnydd ar hyn.

Fe wnaethom atgyfeirio 473 o bryderon at gorff rheoleiddiol arall.

# Gorchmynion dros dro

Yn 2022–2023, gosoododd ein panelau orchmynion dros dro i ddiogelu'r cyhoedd tra bo'n hymchwiliadau yn mynd rhagddynt mewn 688 achos (2021–2022: 504 a 2020–2021: 549). Mae tabl 3 yn dangos y dadansoddiad rhwng y ddau fath o orchmynion dros dro. Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o orchmynion dros dro a osodwyd o gymharu â 2021–2022, yn rhannol oherwydd ein ffocws ymroddedig yn 2022–2023 ar symud yr achosion risg uchaf a hynaf yn ein llwyth achosion ymlaen.

**Tabl 3**

**Gorchmynion dros dro a osodwyd**

| | 2022-2023 | | 2021–2022 | | 2020–2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y gorchmynion dros dros | Canran y gorchmynion dros dro | Nifer y gorchmynion dros dros | Canran y gorchmynion dros dro | Nifer y gorchmynion dros dros | Canran y gorchmynion dros dro |
| **Penderfyniadau gorchymyn dros dro** | | | | | | |
| Amodau ymarfer dros dro | 364 | 53% | 264 | 52% | 309 | 56% |
| Atal dros dro | 324 | 47% | 240 | 48% | 240 | 44% |
| **Cyfanswm** | **688** | **100%** | **504** | **100%** | **549** | **100%** |

Mae tabl 4 yn dadansoddi'r nifer o orchmynion dros dro a osodwyd fesul math o gofrestriad. Mae gorchmynion dros dro wedi cael eu gosod ar nyrsys cyswllt am y tro cyntaf ers i'r rôl gael ei chreu.

**Tabl 4**

### Gorchmynion dros dro a osodwyd fesul math o gofrestriad

| | 2022-2023 | | | | 2021–2022 | | | | 2020–2021 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs | Bydwraig | Nyrs gyswllite | Deuol | Nyrs | Byd-wraig | Nyrs gy-swllite | Deuol | Nyrs | Bydwraig | Nyrs gyswllite | Deuol |
| **Penderfyniadau gorchymyn dros dro** | | | | | | | | | | | | |
| Amodau ymarfer dros dro | 343 (53%) | 18 (62%) | 3 (50%) | 0 (0%) | 249 (52%) | 15 (68%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 293 (56%) | 15 (68%) | 0 (0%) | 1 (25%) |
| Atal dros dro | 310 (47%) | 11 (38%) | 3 (50%) | 0 (0%) | 231 (48%) | 7 (32%) | 0 (0%) | 2 (100%) | 230 (44%) | 7 (32%) | 0 (0%) | 3 (75%) |
| **Cyfanswm** | **653** | **29** | **6** | **0** | **480** | **22** | **0** | **2** | **523** | **22** | **0** | **4** |

# Canlyniadau archwilwyr achosion

Yn 2022–2023, gwnaeth ein harchwilwyr achosion 1,210 o benderfyniadau (2021–2022: 1,582) ar ddiwedd ymchwiliad.

Rydym yn darparu cyfarwyddyd eglur i'n gwneuthurwyr penderfyniadau, gan gynnwys archwilwyr achosion, a chyfarwyddyd eglur ar yr hyn sy'n ofynnol mewn penderfyniad. Mae'r cyfarwyddyd yn helpu i sicrhau bod ein penderfyniadau yn gyson.

Mae tabl 5 yn dadansoddi penderfyniadau'r archwilwyr achosion fesul canlyniad. Yn 2022–2023 rydym wedi gweld cyfran uwch o achosion yn derbyn ymgymeriadau neu'n cael eu hatgyfeirio at wrandawiad neu gyfarfod, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gwelodd cyfran is o achosion ddim gweithredu ychwanegol yn cael ei gymryd.

**Tabl 5**

**Penderfyniadau archwilwyr achosion fesul canlyniad**

| | 2022–2023 | 2021–2022 | 2020–2021 |
|---|---|---|---|
| | Nifer yr achosion | Nifer yr achosion | Nifer yr achosion |
| **Penderfyniadau archwilwyr achosion** | | | |
| Atgyfeirio am wrandawiad neu gyfarfod | 666 (55%) | 741 (47%) | 435 (40%) |
| Cyngor | 6 (<1%) | 14 (<1%) | 9 (<1%) |
| Rhybudd | 69 (6%) | 65 (4%) | 38 (4%) |
| Ymgymeriad | 58 (5%) | 23 (1%) | 26 (2%) |
| Dim gweithredu ychwanegol | 411 (34%) | 739 (47%) | 575 (53%) |
| **Cyfanswm** | **1,210** | **1,582** | **1,083** |

Mae tabl 6 yn dadansoddi'r nifer o benderfyniadau archwilwyr achosion fesul math o gofrestriad.

**Tabl 6**

**Nifer o benderfyniadau fesul math o gofrestriad**

| | 2022-2023 | | | 2021–2022 | | | 2020–2021 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs | Bydwraig | Deuol | Nyrs | Bydwraig | Deuol | Nyrs | Bydwraig | Deuol |
| **Penderfyniad yr archwiliwr achos** | | | | | | | | | |
| Atgyfeirio am wrandawiad neu gyfarfod | 632 (55%) | 33 (55%) | 1 (50%) | 709 (47%) | 30 (46%) | 2 (67%) | 410 (40%) | 22 (43%) | 3 (43%) |
| Cyngor | 5 (<1%) | 1 (2%) | 0 (0%) | 14 (<1%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 9 (<1%) | 0 (0%) | 0 (0%) |
| Rhybudd | 66 (6%) | 3 (5%) | 0 (0%) | 63 (4%) | 2 (3%) | 0 (0%) | 35 (3%) | 3 (6%) | 0 (0%) |
| Ymgymeriad | 54 (5%) | 3 (5%) | 1 (50%) | 20 (1%) | 3 (5%) | 0 (0%) | 25 (2%) | 1 (2%) | 0 (0%) |
| Dim gweithredu ychwanegol | 391 (34%) | 20 (33%) | 0 (0%) | 708 (47%) | 30 (46%) | 1 (33%) | 546 (53%) | 25 (49%) | 4 (57%) |
| **Cyfansymiau** | **1,148** | **60** | **2** | **1,514** | **65** | **3** | **1,025** | **51** | **7** |

Mae archwilwyr achosion yn gweithio mewn parau. Mae un yn nyrs gofrestredig neu'n fydwraig ac un yn unigolyn lleyg. Os nad yw'r archwilwyr achosion yn gallu cytuno ar ganlyniad, mae'n rhaid iddynt atgyfeirio'r achos at banel annibynnol o'r Pwyllgor Ymchwilio am benderfyniad.

Cafodd un achos ei atgyfeirio at y Pwyllgor Ymchwilio yn 2022–2023, y tro cyntaf mewn wyth blynedd, oherwydd bod gan yr archwilwyr achosion wahaniaeth barn. Penderfynodd y panel fod achos i'w ateb ac felly symudodd yr achos ymlaen i'r cam dyfarnu. Fe wnaethom gymryd y cyfle i fyfyrio ar y sefyllfa ac adnabod dysgu.

# Canlyniadau gwrandawiadau a chyfarfodydd

Yn 2022–2023, cyrhaeddodd ein panelau 553 o benderfyniadau terfynol ar achosion (2021–2022: 414 a 2020–2021: 208) trwy gyfarfodydd a gwrandawiadau. Mae tabl 7 yn dadansoddi penderfyniadau'r panel fesul math. Roedd y nifer o ganlyniadau gwrandawiadau a chyfarfodydd yn ystod 2020–2021 yn is, a adlewyrchodd y penderfyniad i oedi gwrandawiadau dros dro mewn ymateb i Covid-19.

Rydym wedi gweld lefelau canlyniadau yn cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn unol â'n gwaith adfer llwyth achosion.

Rydym yn parhau i weithio gyda nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt a'u cynrychiolwyr i ddatrys rhagor o achosion yn gynharach yn y broses addasrwydd i ymarfer. Lle mae archwilwyr achosion yn atgyfeirio achosion ymlaen, rydym yn anelu at ddatrys yr achos yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl ac, yn eithaf aml, mae hynny'n golygu nad oes angen gwrandawiad llawn wedi'i ddadlau arnom.

**Tabl 7**

| Penderfyniadau panel | 2022-2023 | | 2021–2022 | | 2020–2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| **Penderfyniad panel** | | | | | | |
| Taro i ffwrdd | 191 | 35% | 109 | 26% | 56 | 27% |
| Atal | 155 | 28% | 124 | 30% | 86 | 41% |
| Amodau ymarfer | 65 | 12% | 61 | 15% | 27 | 13% |
| Rhybudd | 31 | 6% | 37 | 9% | 14 | 7% |
| **Is-gyfanswm** | **442** | **80%** | **331** | **80%** | **183** | **88%** |
| Ffeithiau heb eu profi | 41 | 7% | 22 | 5% | 6 | 3% |
| Heb amharu ar Addasrwydd i Ymarfer | 67 | 12% | 61 | 15% | 19 | 9% |
| Achos wedi'i atal | 3 | <1% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Cyfanswm penderfyniadau panelau** | **553** | **100%** | **414** | **100%** | **208** | **100%** |

Mae atal achos yn bŵer anghyffredin a ddefnyddir gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'n penderfynu y byddai caniatáu i achos barhau yn gyfystyr â chamddefnydd proses ac yn annheg i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw. Roedd yr achosion a ataliwyd a ddatganwyd yma yn cynnwys achosion cysylltiedig.

**Tabl 8**

**Canlyniadau panelau fesul math o gofrestriad**

| | 2022-2023 | | | | 2021–2022 | | | 2020–2021 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nyrs** | **Byd-wraig** | **Deuol** | **Nyrs Gyswllt** | **Nyrs** | **Bydwraig** | **Deuol** | **Nyrs** | **Bydwraig** | **Deuol** |
| **Penderfyniad y panel** | | | | | | | | | | |
| Taro i ffwrdd | 181 (34%) | 6 (29%) | 2 (67%) | 2 (100%) | 99 (26%) | 7 (30%) | 3 (100%) | 55 (28%) | 1 (9%) | 0 (0%) |
| Atal | 151 (29%) | 4 (19%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 123 (32%) | 1 (4%) | 0 (0%) | 80 (41%) | 5 (46%) | 1 (50%) |
| Amodau ymarfer | 60 (11%) | 5 (24%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 57 (15%) | 4 (17%) | 0 (0%) | 25 (13%) | 2 (18%) | 0 (0%) |
| Rhybudd | 28 (5%) | 2 (10%) | 1 (33%) | 0 (0%) | 32 (8%) | 5 (22%) | 0 (0%) | 14 (7%) | 0 (0%) | 0 (0%) |
| **Is-gyfanswm** | **420** | **17** | **3** | **2** | **311** | **17** | **3** | **174** | **8** | **1** |
| Ffeithiau heb eu profi | 40 (8%) | 1 (5%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 20 (5%) | 2 (9%) | 0 (0%) | 6 (3%) | 0 (0%) | 0 (0%) |
| Heb amharu ar Addasrwydd i Ymarfer | 64 (12%) | 3 (14%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 57 (15%) | 4 (17%) | 0 (0%) | 15 (8%) | 3 (27%) | 1 (50%) |
| Achos wedi’i atal | 3 (<1%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) |
| **Cyfansymiau cyffredinol** | **527** | **21** | **3** | **2** | **388** | **23** | **3** | **195** | **11** | **2** |

Dyma’r tro cyntaf ers i’r rôl gael ei chyflwyno yn Ionawr 2019, i honiadau yn erbyn nyrsys cyswllt ddod ger bron panel a sancsiynau wedi cael eu penderfynu.

## Honiadau a ganfuwyd wedi'u profi wrth ddyfarnu

Mae'r tri chategori uchaf o honiadau a ganfuwyd wedi'u profi wedi aros yr un peth bob blwyddyn ers 2020, er bod y drefn wedi amrywio.

Yn 2022–2023, gofal cleifion oedd y categori mwyaf cyffredin, wedi'i ddilyn gan ragnodi a rheoli meddyginiaethau ac wedyn cadw cofnodion.

Mae'r tabl isod yn dangos themâu mwyaf cyffredin yr honiadau (lefel un) a chategorïau manylach o fewn pob thema (lefel dau).

| Honiad lefel un (% cyfanswm yr honiadau) | Honiad lefel dau |
|---|---|
| Gofal cleifion (22%) | • Diagnosis, arsylwi, asesu<br>• Ymateb amhriodol neu wedi'i oedi i arwyddion negyddol, gwaethygiad, neu ddigwyddiadau |
| Rhagnodi a rheoli meddyginiaethau (16%) | • Peidio â rhoi neu wrthod rhoi meddyginiaeth<br>• Storio, cludo, paratoi, gwaredu amhriodol |
| Cadw cofnodion (13%) | • Cofnodion cleifion neu glinigol<br>• Cofnodion cyffuriau neu feddyginiaeth |

## Cofnodion cofrestr twyllodrus neu anghywir

Mae ein panelau'n ystyried honiadau bod nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt wedi cael ei hychwanegu at y gofrestr yn anghywir neu drwy dwyll. Os byddant yn canfod yr honiad wedi'i brofi, bydd y panel yn gallu cyfarwyddo'r Cofrestrydd i dynnu neu ddiwygio'r cofnod ar y gofrestr.

Yn 2022–2023, cyfarwyddodd ein panelau y Cofrestrydd i dynnu nyrs neu fydwraig o'r gofrestr mewn 54 achos (2021–2022: 38 a 2020–2021: 17).

## Tynnu gwirfoddol (yn awr yn cael ei adnabod fel tynnu cytunedig)

Mae nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt yn gallu ymgeisio i gael eu tynnu'n wirfoddol o'r gofrestr. Cyn Ebrill 2023 ac o dan ein hen broses dynnu wirfoddol, roedd amodau llymach ar gyfer gwneud hynny, fel y gweithiwr proffesiynol yn derbyn yr holl honiadau yn ei erbyn a gallu gwneud cais ar ôl i'n hymchwiliadau orffen yn unig.

Newidiodd y broses i dynnu cytunedig yn Ebrill 2023, sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd inni gytuno i'r ceisiadau hyn.

Un or newidiadau yw mewn amgylchiadau penodol, mae tynnu o'r rhestr yn awr yn gallu digwydd ar unrhyw gam o'r broses addasrwydd i ymarfer. Newid arall yw nad oes rhaid i'r gweithiwr proffesiynol dderbyn fod ei addasrwydd i ymarfer wedi'i amharu cyn y gall tynnu cytunedig gael ei ystyried. Fodd bynnag, rydym yn ceisio barn gan yr unigolyn sy'n codi'r pryderon cyn cytuno ar dynnu ac ym mhob achos, byddwn yn ystyried yn ofalus a yw er budd cyhoeddus i gadw rhywun ar y gofrestr er mwyn inni allu parhau â'n proses addasrwydd i ymarfer – er enghraifft lle mae pryderon difrifol iawn, y bydd angen ymchwilio iddynt yn llawn a'u rhoi ger bron panel annibynnol.

Mae'r tablau yma ynghylch tyniadau gwirfoddol o dan yr hen broses. Mae tabl 9 yn dangos y nifer o geisiadau a dderbyniwyd ac a roddwyd yn y tair blynedd diwethaf. Nid yw'r ffigurau yn cydbwyso mewn blwyddyn oherwydd bod rhai penderfyniadau yn cael eu cyrraedd yn y flwyddyn ar ôl i'r cais gael ei dderbyn.

**Tabl 9**

### Ceisiadau tynnu gwirfoddol

| Tyniadau gwirfoddol | 2022–2023 | 2021–2022 | 2020–2021 |
|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau | 108 | 78 | 36 |
| Ceisiadau a roddwyd | 60 | 46 | 39 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 61 | 31 | 6 |

Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad o benderfyniadau tynnu gwirfoddol eleni fesul math o gofrestriad.

**Tabl 10**

### Penderfyniadau tynnu gwirfoddol fesul math o gofrestriad

| | 2022–2023 | | 2021–2022 | | 2020–2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tyniadau gwirfoddol** | **Nyrs** | **Bydwraig** | **Nyrs** | **Bydwraig** | **Nyrs** | **Bydwraig** |
| Ceisiadau a roddwyd | 53 | 7 | 39 | 7 | 39 | 0 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 57 | 4 | 29 | 2 | 5 | 1 |
| **Cyfansymiau** | **110** | **11** | **68** | **9** | **44** | **1** |

Ni chafodd penderfyniadau tynnu gwirfoddol eu gwneud ynghylch gweithwyr proffesiynol wedi'u cofrestru'n ddeuol na nyrsys cyswllt. Yn 2023–2024 rydym yn cipio data am dyniadau cytunedig (y broses newydd).

# Adolygiadau ac apeliadau

Mae gennym y pŵer i adolygu penderfyniadau'r archwilwyr achosion, gan gynnwys cyngor, rhybuddion ac ymgymeriadau, a gall unrhyw un ofyn ein bod yn gwneud hynny.

Mae adolygu penderfyniad yn cael ei wneud mewn dau gam.

1. Rydym yn penderfynu a ddylid cyflawni adolygiad.
2. Os byddwn yn cyflawni adolygiad, gallwn benderfynu naill ai i ategu'r penderfyniad gwreiddiol neu fod penderfyniad newydd yn ofynnol.

Mae tabl 11 yn dangos y nifer o geisiadau a dderbyniwyd gennym a'r penderfyniadau a wnaethom yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r ffigurau yn cydbwyso o fewn blwyddyn oherwydd nad oedd rhai adolygiadau wedi'u cwblhau yn y flwyddyn y cafodd y ceisiadau eu derbyn.

Mae dysgu o adolygiadau yn ffurfio hyfforddiant a gweithgareddau gwella ansawdd eraill i archwilwyr achosion ac ymchwilwyr.

**Tabl 11**

**Adolygiadau o benderfyniadau archwilwyr achosion**

| Cam pŵer i adolygu | 2022–2023 | 2021–2022 | 2020–2021 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau am adolygiadau a dderbyniwyd | 41 | 52 | 38 |
| Cam cyntaf: caewyd y cais | 13 | 21 | 17 |
| Ail gam: penderfyniad newydd yn ofynnol | 18 | 18 | 7 |
| Ail gam: ategwyd y penderfyniad gwreiddiol | 2 | 0 | 0 |

Yn y 18 achos yn 2022–2023 lle penderfynodd y Cofrestrydd fod penderfyniad n newydd yn ofynnol, rhoddodd dri rheswm.

- Mewn 15 achos, roedd nam materol yn y penderfyniad gwreiddiol. Rydym yn dadansoddi'r sefyllfaoedd hyn yn rheolaidd ac yn sicrhau bod unrhyw ddysgu yn cael ei rannu â phob gwneuthurwr penderfyniadau perthnasol a'r tîm Archwilwyr Achosion ehangach.
- Mewn un achos, daeth gwybodaeth newydd ar gael.
- Mewn dau achos, roedd nam materol yn y penderfyniad gwreiddiol a daeth gwybodaeth newydd ar gael.

Mae nyrs, bydwraig neu nyrs gyswllt yn gallu apelio yn erbyn penderfyniadau gan ein panelau. Mae'n rhaid iddynt gyflwyno eu hapêl o fewn 28 diwrnod o'r penderfyniad i un o'r canlynol: yr Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr, Yr Uchel Lys Cyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon neu'r Llys Sesiwn yn yr Alban. Mae'r llys yn gallu penderfynu bod amgylchiadau eithriadol i gyfiawnhau estyn cyfnod yr amser. Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) hefyd yn gallu atgyfeirio achos i lys os yw'n ystyried nad yw penderfyniad panel yn diogelu'r cyhoedd.

Mae tablau 12 a 13 yn dangos cyfanswm nifer yr apeliadau gan weithwyr proffesiynol neu gan y PSA. Ni chafodd pob apêl a gyflwynwyd eu cwblhau yn yr un flwyddyn ac mae'r canlyniadau yn cynnwys apeliadau a gyflwynwyd yn y cyfnodau adrodd blaenorol. Mae hyn yn golygu nad yw'r ffigurau yn cydbwyso o fewn blwyddyn oherwydd na chafodd rhai penderfyniadau eu cyrraedd yn y flwyddyn y cafodd yr apêl ei chyflwyno. Mae dysgu o apeliadau yn cael ei ddefnyddio i ffurfio hyfforddiant i aelodau panel a staff a gweithgareddau gwella ansawdd eraill

**Tabl 12**

### Apeliadau panel a gafodd eu gwneud gan weithwyr proffesiynol

| Canlyniad | 2022–2023 | 2021–2022 | 2020–2021 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm apeliadau a gyflwynwyd | 8 | 4 | 9 |
| Ategwyd apêl | 2 | 1 | 0 |
| Gwrthodwyd apêl | 2 | 5 | 12 |

**Tabl 13**

### Apeliadau penderfyniadau panel a gafodd eu gwneud gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

| Outcome | 2022–2023 | 2021–2022 | 2020–2021 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm apeliadau a gyflwynwyd | 8 | 9 | 4 |
| Ategwyd apêl | 5 | 6 | 6 |
| Gwrthodwyd apêl | 1 | 1 | 1 |

# Adferiad i'r gofrestr

Mae nyrs neu fydwraig a gafodd ei tharo i ffwrdd gan banel yn gallu apelio i gael ei hadfer i'n cofrestr ar ôl pum mlynedd. Cyn iddynt allu ailymuno â'r gofrestr, mae'n rhaid iddynt fodloni panel eu bod yn addas i ymarfer. Os yw eu cais yn llwyddiannus, fel arfer mae'n rhaid iddynt ymgymryd â rhaglen dychwelyd i ymarfer. Mae tabl 14 yn dangos canlyniadau ceisiadau adferiad yn 2022–2023. Nid yw'r ffigurau yn cydbwyso o fewn blwyddyn oherwydd bod rhai penderfyniadau yn cael eu cyrraedd yn y flwyddyn ar ôl i'r apêl gael ei gwneud. Mae'r nifer o geisiadau adferiad wedi amrywio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, nid ydym wedi adnabod unrhyw dueddiadau sylfaenol.

**Tabl 14**

**Canlyniadau ceisiadau adferiad**

| Canlyniad | 2022–2023 | 2021–2022 | 2020–2021 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm ceisiadau a dderbyniwyd | 60 | 56 | 72 |
| Derbyniwyd cais | 15 | 21 | 33 |
| Gwrthodwyd cais | 17 | 21 | 30 |

Mae tabl 15 yn dangos y dadansoddiad o benderfyniadau adferiad eleni fesul math o gofrestriad.

**Tabl 15**

**Penderfyniadau adferiad fesul math o gofrestriad**

| | 2022–2023 total | Nurse | Midwife | Dual |
|---|---|---|---|---|
| Derbyniwyd cais | 15 | 14 | 1 | 0 |
| Gwrthodwyd cais | 17 | 14 | 0 | 3 |

# Edrych ymlaen at 2023-2024

Ein ffocws yw gwella ein perfformiad gweithredol craidd ac i barhau ag amrediad o fesurau i leihau'r llwyth achosion yn gyflym ac yn ddiogel ac mewn ffyrdd sy'n cynyddu hyder cyhoeddus.

Erbyn 31 Mawrth 2024, byddwn yn lleihau ein llwyth achosion i 4,000 achos trwy ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol:

- datblygu ein hymagwedd gwaith achosion, gan gynnwys gwelliannau i arolygiaeth rheoli a chyflymu rhagweithiol o broblemau sy'n achosi oedi
- gwella prif brosesau gwaith achosion, gan ddefnyddio arbenigedd allanol i lyfnhau a chyflymu ein gwaith tra'n cynnal ansawdd
- profi a threialu ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys symud tuag at gael perchnogion achos unigol er mwyn inni ddarparu gwasanaeth mwy cyson fel rhan o'n hymagwedd wedi'i chanoli ar unigolyn i'n proses addasrwydd i ymarfer.

Bydd y gwelliannau hyn i'n prosesau hefyd yn ffurfio system TG newydd ar gyfer rheoli achosion addasrwydd i ymarfer, fydd yn cymryd lle ein system bresennol sydd wedi dyddio. Fel rhan o Ddiwygio Rheoleiddiol, mae gennym ddyheadau ar gyfer deddfwriaeth fwy modern a hyblyg fydd yn ein galluogi i ddarparu rheoleiddio mwy cymesur a diogelach. Bydd y dyheadau hyn yn cael eu ffactora i mewn i ddyluniad y system TG hefyd, er bod ansicrwydd o hyd am yr amserlen ar gyfer y diwygiadau hyn a'r newidiadau y gallwn eu gwneud.

Bydd 2023–2024 yn gweld cynllunio gofalus ar draws ein Diwygio Rheoleiddiol, gwelliant Addasrwydd i Ymarfer a Moderneiddio rhaglenni Gwasanaethau Technoleg, gan arwain at gynnig dyluniad system lefel uchel i'n Cyngor ei ystyried. Rydym yn cynllunio adeiladu'r system newydd yn 2024–2025.

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ

**T +44 20 7333 9333**

**nmc.org.uk**

© Hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2023

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).
©NMC 2022-2025

E02921926

978-1-5286-4233-0